
Newyddion a gwybodaeth am Covid-19: defnydd ac agweddau

Canlyniadau arolwg ar-lein Ofcom ar gyfer wythnosau
1 i 3

Trosolwg

Mewn ymateb i Covid-19, mae Ofcom wedi comisiynu arolwg ar-lein wythnosol parhaus o oddeutu 2,000 o ymatebwyr, er mwyn monitro sut mae pobl yn cael newyddion a gwybodaeth am yr argyfwng. Mae'r ymchwil hwn wedi cael ei ddylunio i helpu amryw o randdeiliaid gyda'u gweithgareddau yn ystod y cyfnod hwn. Mae gwaith maes yn cael ei gynnal bob penwythnos, yn gofyn i bobl am eu harferion a'u hagweddau dros y saith niwrnod diwethaf. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canlyniadau o don tri ein hymchwil (gwaith maes rhwng 10-12 Ebrill 2020), sy'n cyfateb i wythnos tri o 'gyfyngiadau symud' yn y DU. Mae'r adroddiad hefyd yn cymharu canfyddiadau ton tri yn erbyn dwy don flaenorol ein hymchwil, a gynhaliwyd rhwng 3-5 Ebrill (ton dau) a 27-29 Mawrth (ton un).

Dylid nodi, gan mai methodoleg panel ar-lein ydyw, fod canfyddiadau'r arolwg yn cynrychioli barn ac arferion 87% o boblogaeth y DU sydd ar-lein¹.

Prif ganfyddiadau

- Ffynonellau swyddogol (fel y GIG a'r llywodraeth), yn ogystal â darlledwyr traddodiadol, yw'r ffynonellau mwyaf cymeradwy i gael gwybodaeth am Covid-19 o hyd, gyda chyfryngau cymdeithasol a grwpiau caeëdig yn dal i fod y ffynonellau lleiaf cymeradwy.
- Yn ystod trydedd wythnos y 'cyfyngiadau symud' dywed hanner yr ymatebwyr (50%) eu bod wedi dod ar draws gwybodaeth ffug neu gamarweiniol² am Covid-19 (i fyny o 46% yn wythnos un).
- Y darn mwyaf cyffredin o gamwybodaeth a welodd pobl yn ystod wythnos tri (o restr benodol) oedd '*theoriau yn cysylltu tarddiad achosion Covid-19 â thechnoleg 5G*' (50%). Bu bron i bob un o'r theorïau eraill a oedd yn gyffredin yn ystod wythnos un y cyfyngiadau symud ddisgyn mewn wythnosau dilynol.
- Mae canran yr ymatebwyr sy'n defnyddio safle gwirio ffeithiau wedi cynyddu dros amser, o 10% yn wythnos un y 'cyfyngiadau symud' i 18% yn wythnos dau (er bod hyn wedi disgyn rhywfaint i 15% yn wythnos tri).
- Ar ben hynny, mae cyfran yr ymatebwyr sy'n dweud 'ei bod hi'n anodd iddynt wybod beth sy'n wir a beth sy'n ffug am Covid-19' wedi disgyn o 40% yn wythnos 1 i 32% yn wythnos 3.
- Ymatebwyr 25-34 oed sydd fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn '*ceisio osgoi'r newyddion am Covid-19*', gyda phedwar o bob deg (39%) yn cytuno â'r datganiad hwn yn wythnos tri (i fyny o 30% yn wythnos un).


¹ Ofcom, [Ein Gwlad Ar-lein](#) 2019

² Nid yw geiriad cwestiwn yr arolwg yn gwahaniaethu rhwng camwybodaeth sy'n cael ei riportio felly, a chamwybodaeth sy'n cael ei lledaenu'n fwriadol.

Cael gafael ar newyddion a gwybodaeth am Covid-19

- Yn ystod trydedd wythnos y ‘cyfyngiadau symud’, mae bron i holl boblogaeth ar-lein y DU (97%) yn dal i gael gafael ar newyddion a gwybodaeth am Covid-19 o leiaf unwaith y dydd. Ceir rhai arwyddion nad ydy pobl yn cael gafael ar newyddion a gwybodaeth mor aml ag oedden nhw’n ei wneud yn ystod pythefnos cyntaf y cyfyngiadau symud, gydag 14% yn wythnos tri yn dweud eu bod yn cael newyddion 20 gwaith neu fwy y dydd sy’n llai nag yn ystod wythnos un (24%) ac wythnos dau (17%).
- Mae’r mwyafrif o ffynonellau wedi gweld newid mewn defnydd ers wythnos un. Gwasanaethau’r BBC yw’r ffynhonnell a ddefnyddir fwyaf o bell ffordd o hyd (gweler Ffigur 1). Mae pedwar o bob pump (78%) yn dweud eu bod yn defnyddio’r BBC fel ffynhonnell ar gyfer cael newyddion/gwybodaeth, ond mae hyn wedi disgyn ers wythnos un (82%). Mae ychydig dros hanner yn defnyddio darlledwyr ar wahân i’r BBC (54%) ac nid yw hyn wedi newid ers y pythefnos blaenorol. Caiff hyn ei ddilyn gan swyddogion (43%), cyfryngau cymdeithasol (39%), papurau newydd naill ai ar-lein neu wedi’u hargraffu (38%) a theulu, ffrindiau neu bobl leol (28%) sydd i gyd wedi gweld gostyngiad o wythnos un. Mae 10% yn dweud eu bod yn defnyddio grwpiau caeedig, fel grwpiau WhatsApp a Facebook messenger o’i gymharu â 15% yn wythnos un ac 11% yn wythnos dau.

Ffigur 1: Ffynonellau a ddefnyddiwyd i gael newyddion/gwybodaeth am Covid-19



Ffynhonnell: Arolwg newyddion Covid-19 Ofcom, Mawrth-Ebrill 2020. Q3a. Pa rai o’r ffynonellau canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi’u defnyddio i gael gwybodaeth/newyddion am y Coronafeirws yn yr wythnos diwethaf? Sail: Yr holl ymatebwyr sy’n cael gwybodaeth/newyddion am y Coronafeirws Wythnos 1 (2226), Wythnos 2 (2110) ac Wythnos 3 (2105)

Nodyn: Mae ‘ffynonellau newyddion eraill ar-lein’ yn cyfuno tri math o ffynhonnell: gwefannau/apiau sy’n cynnwys sefydliadau newyddion ar-lein, fel BuzzFeed, Huffington Post, Vice ac ati; gwefannau neu apiau sy’n

dod â newyddion oddi wrth ddarparwyr newyddion gwahanol at ei gilydd; a ffynonellau newyddion nad ydynt yn rhai prif-ffrwd fel Russia Today, Breitbart, Swawkbox ac ati

- Pan ofynnir i bobl enwebu eu ffynhonnell bwysicaf ar gyfer newyddion/gwybodaeth am Covid-19, dywedodd 35% teledu'r BBC, roedd 15% yn dewis canfod yn uniongyrchol o ffynonellau swyddogol (fel Sefydliad Iechyd y Byd, y GIG, Llywodraeth, ayb), roedd 14% yn dewis darlledwyr ar wahân i'r BBC, roedd 11% yn dewis BBC Online ac roedd 5% yn dewis y cyfryngau cymdeithasol. Nid yw'r rhain wedi newid ers y pythefnos blaenorol. Mae'r patrwm ymysg pobl ifanc 18-24 ychydig yn wahanol, gyda 10% yn dewis cyfryngau cymdeithasol (heb newid o'r pythefnos blaenorol), er mai teledu'r BBC (22%) yw'r pwysicaf o hyd (sydd wedi gostwng o 29% yn wythnos un).
- Yn gyffredinol, dywed pobl eu bod yn defnyddio mwy ar sefydliadau'r cyfryngau nag oeddent cyn y feirws: Mae 57% yn honni eu bod yn defnyddio sefydliadau sy'n gweithredu ar draws y DU i gyd (llawer neu ychydig) yn fwy nag o'r blaen, a 33% yn dweud eu bod yn defnyddio mwy ar sefydliadau cyfryngau lleol. Mae'r naill a'r llall wedi disgyn ers wythnos un.
- Dywed bron i un o bob pump (18%) o'r ymatebwyr nad ydynt yn rhannu gwybodaeth am Covid-19, sy'n gynydd o wythnos un (11%). Mae'r mwyafrif llethol yn dal i wneud hynny, yn bersonol yn bennaf/dros y ffôn (73%), er bod hyn yn ostyngiad o wythnos un (81%). Yn yr un modd, bu gostyngiad yn y broses rhannu drwy ddulliau cyfathrebu ysgrifenedig mewn grwpiau caeedig (o 34% yn wythnos un i 25% yn wythnos tri), Zoom, Teams ayb, a thrwy gyfryngau cymdeithasol (o 25% i 20%). Dywed un o bob pump (20%) eu bod yn rhannu drwy fideo ac nid yw hyn wedi newid.

Camwybodaeth am Covid-19

- Yn ystod trydedd wythnos y 'cyfyngiadau symud' dywed hanner yr ymatebwyr (50%) eu bod wedi dod ar draws gwybodaeth ffug neu gamarweiniol³ am Covid-19 (i fyny o 46% yn wythnos un). Mae'r cynnydd wedi digwydd o ganlyniad i gynydd yn nifer yr ymatebwyr 65 oed a hŷn sy'n dweud eu bod wedi dod ar draws gwybodaeth gamarweiniol neu ffug, sy'n gynydd o 33% o'r ymatebwyr yn wythnos un i 46% yn wythnos tri. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn rhannol oherwydd bod cyfryngau prif ffrwd yn codi ymwybyddiaeth ynghylch bod gwybodaeth benodol yn ffug wrth iddynt roi sylw i'r pandemig. Y rheini sy'n 16-24 oed yw'r rhai mwyaf tebygol o fod wedi dod ar draws gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, gyda 59% yn cytuno gyda'r datganiad hwn yn wythnos tri.
- Ni fu llawer o newid o ran pa mor aml y ceir gafeael ar gamwybodaeth. Ymysg y rheini a welodd gamwybodaeth yn wythnos tri y 'cyfyngiadau symud', dywed bron i ddwy ran o dair (62%) eu bod yn ei gweld o leiaf unwaith y dydd (o'i gymharu â 66% yn wythnos un). Y darn mwyaf cyffredin o gamwybodaeth a welodd pobl yn ystod wythnos tri (o restr benodol) oedd 'theoriau yn cysylltu tarddiad neu achosion Covid-19 â thechnoleg 5G'⁴ (50%)⁵. Fodd bynnag, fel y gwelir yn

³ Nid yw geiriad cwestiwn yr arolwg yn gwahaniaethu rhwng camwybodaeth sy'n cael ei riportio felly, a chamwybodaeth sy'n cael ei lledaenu'n fwiadol.


⁴ <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/features-and-news/ofcom-update-on-5g-vandalism>

⁵ Nid oedd y datganiad hwn wedi cael ei gynnwys yn nhon 1 a 2 felly nid oes cymhariaeth ar gael

ffigur 2 isod, bu bron i bob un o'r theorïau eraill a oedd yn gyffredin yn ystod wythnos un y 'cyfyngiadau symud' ostwng yn ystod yr wythnosau dilynol, er enghraifft, gostyngodd 'yfed dŵr yn amlach' (26%), "garglo gyda dŵr hallt" (17%), tra'r oedd y ganran a oedd wedi gweld "bwyta bwyd/diod cynnes ac osgoi bwyd/diod oer" wedi gostwng i 15%.

- Dywedodd dros hanner (57%) o'r rheini a welodd gamwybodaeth yn wythnos tri nad oeddent wedi gwneud dim am y peth (heb newid ers wythnos un). Fodd bynnag, mae canran yr ymatebwyr sy'n defnyddio safle gwirio ffeithiau wedi cynyddu dros amser, o 10% yn wythnos un y cyfyngiadau symud i 18% yn wythnos dau (er bod hyn wedi disgyn rhywfaint i 15% yn wythnos tri). Ar ben hynny, mae cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi rhannu neu anfon y gamwybodaeth ymlaen wedi disgyn i ddim ond 4% yn wythnos tri (o 7% yn rhon un) Dywedodd deuddeg y cant eu bod yn defnyddio cyngor gan gyfryngau fel gwefan y BBC, ac roedd 14% yn gwirio gyda ffrindiau a theulu (15% a 13% yn y drefn honno yn wythnos un).

Ffigur 2: Gwybodaeth ffug neu gamwybodaeth am Covid-19 yr oedd yr ymatebwyr wedi dod ar ei thraws



Ffynhonnell: Arolwg newyddion Covid-19 Ofcom, Mawrth-Ebrill 2020. Nodyn: Cafodd rhywfaint o wybodaeth ffug/camwybodaeth ychwanegol ei chyflwyno i'r arolwg yn y tonau dilynol. Q10. Ydych chi wedi dod ar draws rhywfaint o'r wybodaeth ffug neu'r gamwybodaeth yma am osgoi'r coronafeirws yn ystod yr wythnos diwethaf?


Sail: Yr holl ymatebwyr sy'n cael gwybodaeth/newyddion am y Coronafeirws Wythnos 1 (2226), Wythnos 2 (2110) ac Wythnos 3 (2105).

Cyngor swyddogol am Covid-19

- Ni fu dim newid yng nghyfran yr ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn dilyn y cyngor swyddogol am Covid-19 rhwng wythnos un, dau a thri o'r 'cyfyngiadau symud'. Mae bron i bob ymatebydd yn dweud eu bod yn dilyn y cyngor swyddogol (yn agos neu'n weddol agos) o ran cadw pellter cymdeithasol (98%), gan fynd allan dim ond ar gyfer pethau hanfodol (97%) ac yn golchi eu

dwylo'n rheolaidd (94%) (gweler Ffigur 3). Fodd bynnag, mae cyfran uwch o bobl rhwng 16 a 24 oed yn parhau i ddweud eu bod yn dilyn y cyngor swyddogol am olchi dwylo'n rheolaidd dim ond yn 'weddol agos' (43% o'i gymharu â 30% o'r holl ymatebwyr yn wythnos tri.

Ffigur 3: I ba raddau mae pobl yn dilyn cyngor swyddogol



Ffynhonnell: Arolwg newyddion Covid-19 Ofcom, Mawrth-Ebrill 2020. Nodyn: Efallai na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu. Q13. Yn ystod yr wythnos diwethaf, pa mor agos byddech chi'n dweud eich bod yn dilyn cyngor swyddogol ar yr agweddau canlynol o'r Coronafeirws? Sail: Yr holl ymatebwyr Wythnos 1 (2223), Wythnos 2 (2105) ac Wythnos 3 (2113)

Agweddau tuag at Covid-19 a'r sylw yn y cyfryngau

- Ffynonellau swyddogol yw'r ffynhonnell fwyaf dibynadwy o hyd i gael gwybodaeth am Covid-19. Mae naw o bob deg neu fwy o'r rheini sy'n defnyddio'r ffynonellau swyddogol yn ymddiried yn y GIG (93% yn wythnos tri o'i gymharu â 95% yn wythnos un), gwasanaethau iechyd lleol (88% o'i gymharu â 91%), gwyddonwyr swyddogol (87% o'i gymharu â 90%) a'r llywodraeth (81% o'i gymharu â 89%). Er bod y mwyafrif (83%) o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn ymddiried yn Sefydliad Iechyd y Byd fel ffynhonnell o wybodaeth, mae hyn wedi gostwng o wythnos un (94%).
- Mae darlledwyr traddodiadol hefyd yn parhau i fod yn ddibynadwy iawn, er bod pob un wedi cofnodi gostyngiad, gyda 79% o ddefnyddwyr yn ymddiried yn rhaglenni teledu'r BBC (83% yn wythnos un), 77% Channel 4 (84% wythnos un), 76% ITV (82% wythnos un), a 72% Sky (75% wythnos un). Cyfryngau cymdeithasol a grwpiau caeedig ydy'r ffynhonnell leiaf dibynadwy o hyd gydag un rhan o bump o'r ymatebwyr yn wythnos tri (22%) yn dweud eu bod wedi cael newyddion a gwybodaeth gymeradwy iawn am Covid-19 ar Twitter (19% Instagram, 17% Snapchat, 14% Facebook). Dywedodd ychydig dan chwarter (24%) yr ymatebwyr yn wythnos tri eu bod yn ymddiried yn fawr yn yr wybodaeth a gafwyd ar WhatsApp.

Newyddion a gwybodaeth am Covid-19: defnydd ac agweddau

- Mae cyfran yr ymatebwyr sy'n dweud 'ei bod hi'n anodd iddynt wybod beth sy'n wir a beth sy'n ffug am Covid-19' wedi disgyn o 40% yn wythnos 1 i 32% yn wythnos 3. Ar ben hynny, mae'r gyfran sy'n dweud eu bod yn 'ddryslyd ynghylch beth dylen nhw fod yn ei wneud mewn ymateb i Covid-19' hefyd wedi disgyn (o 17% yn wythnos un i 12% yn wythnos tri).
- Mae cyfran gynyddol o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn 'ceisio osgoi newyddion am y Coronafeirws', gyda thri ymatebydd o bob deg (29%) yn cytuno â'r datganiad hwn o'i gymharu â 23% yn wythnos un. Ymatebwyr 25-34 oed sydd fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn 'ceisio osgoi'r newyddion am y Coronafeirws', gyda phedwar o bob deg (39%) yn cytuno â'r datganiad hwn yn wythnos tri (i fyny o 30% yn wythnos un).
- Yn olaf, mae ymatebwyr yn ein harolwg yn parhau i gytuno bron yn gyfan gwbl (93% yn wythnos tri) bod yr argyfwng wedi dangos ochrau cadarnhaol i gymdeithas (heb newid o'i gymharu ag wythnosau blaenorol).